Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams
**Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd**

---

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams
**Head of Legal, HR and Democratic Services**

**AGENDA**

**1 RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 4)

**2 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# RHAGLEN

## CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 14 Ionawr 2021 |
| **Amser** | 10.00-11.30 |
| **Lleoliad** | Fideo-Gynadledda Webex |
| **Cadeirydd** | Y Cyng. Graham Timms |
| **Hwylusydd** | Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) |
| **Ymddiheuriadau** | Judith Greenhalgh |

**1. Croeso ac ymddiheuriadau** — 10.00 – 10.05

**2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf** — 10.05 - 10.20

**3. Thema: Newid Ymddygiad – Annog a chynnal ymddygiadau sy'n garbon isel ac yn bositif yn ecolegol ymysg Staff a Chynghorwyr** — 10.20 – 11.20

- Trafodaeth bord gron gyda mewnbwn gan Siân Owen (Swyddog Arweiniol  - Tîm Cyrchfan, Marchnata a Chyfathrebu) a Manon Celyn (Swyddog Iaith Gymraeg) a fydd yn rhannu gwersi a ddysgwyd o bandemig Covid-19, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i annog y defnydd o'r iaith Gymraeg yng Nghyngor Sir Ddinbych.

**4. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac unrhyw fater arall** — 11.20 – 11.30

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 17 / 12 / 2020 |
| **Amser** | 9.30 - 11.00 |
| **Lleoliad** | Fideo-Gynadledda Webex |
| **Yn bresennol** | Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK); Cynghorydd Bobby Feeley (BF); Cynghorydd Barry Mellor (BM); Cynghorydd Brian Jones (BJ); Cynghorydd Arwel Roberts (AR); Cynghorydd Graham Timms (GT); Cynghorydd Joe Welsh (CJW); Cynghorydd Tony Thomas (TT) |
| **Ymddiheuriadau** | Judith Greenhalgh (JG), Cynghorydd Emrys Wynne (EW), Nicola Kneale (NK) |
| **Hefyd yn bresennol** | Swyddogion Cefnogi: Helen Vaughan-Evans (HVE), Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Liz Wilcox-Jones (LWJ); Andrew Cutts (AC), Heidi Barton-Price (HBP), Joel Walley (JW), Tony Ward (TW), Alan Smith (AS) |

## 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd, GT y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

## 2. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir.

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **LWJ/HV –** parhau â chynlluniau ar gyfer gwefan, fforwm trafod ac ymgynghoriad cyhoeddus. | **CWBLHAWYD** |
| **HS/LWJ –** Llunio llythyr ar gyfer adolygiad y Cynghorwyr Tony Thomas a Graham Timms i'r Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn gofyn beth maent yn ei wneud i liniaru colli coed (yn benodol coed aeddfed) ar ôl iddynt gael eu torri ar hyd yr A55. Anfon llythyr gan y gweithgor hwn o dan enw GT a gan AHNE o dan enw TT. | **CWBLHAWYD**<br>• Llythyr wedi'i anfon<br>• Cafwyd ymateb ar 9 Rhagfyr yn dweud ei fod wedi cael i anfon at Reolwr Rhwydwaith Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru a Rheolwr Amgylcheddol Llywodraeth Cymru i ymateb yn fuan. |
| **HVE/LWJ –** cynhyrchu fersiynau i bobl ifanc, sydd â ffeithluniau ac sy'n hawdd ei ddeall o'r strategaeth gan weithio gyda chydweithwyr/darparwyr allanol. | **CWBLHAWYD** |
| **HVW –** anfon gwybodaeth am y strategaeth/ymgynghoriad at bob Cadeirydd Llywodraethwyr. | **CWBLHAWYD** |
| **RP –** darparu manylion cyswllt ar gyfer arweinydd defnydd tir yn Llywodraeth Cymru er mwyn i gynrychiolwyr CSDd gael cyfarfod. | **AR Y GWEILL**<br>• Mae HVE wedi gofyn a cheisio cael gafael ar yr e-bost. |
| **HS –** anfon adroddiad Carbon Glas Cyfoeth Naturiol Cymru at y grŵp. | **CWBLHAWYD** |
| **HVE –** gwneud newidiadau i'r llythyr at Lesley Griffith AS a'i anfon at BJ i'w adolygu | **AR Y GWEILL** |

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

| CAM GWEITHREDU | DIWEDDARIAD |
|---|---|
| **TW –** trafod gyda Nigel Highfield yn Rheoli Cyfleusterau ynglŷn â chyflwyno bwydlenni carbon isel a dod â syniadau nôl i'r grŵp. | **AR Y GWEILL**<br>• TW i ddarparu diweddariad ar lafar yn y cyfarfod. |
| **HVE –** anfon enghreifftiau o fwydlenni carbon isel gan CAT at TW | **CWBLHAWYD** |
| **LD –** anfon canlyniadau arolygon staff mewn cysylltiad â ffyrdd newydd o weithio at HVE i'w dosbarthu i weithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol | **AR Y GWEILL**<br>• AS i ddarparu diweddariad ar lafar mewn cyfarfod. |
| **LD –** i adrodd yn ôl i'r gweithgor Ffyrdd Newydd o Weithio am bryderon a fynegwyd nad yw rhai cyfarfodydd yn gweithio dros y we a'r angen i ddosbarthu gofynion yswiriant manteision treth i staff sydd bellach yn gweithio o adref. | **AR Y GWEILL**<br>• AS i ddarparu diweddariad ar lafar mewn cyfarfod. |

Cam gweithredu bwydlen carbon isel

Roedd TW wedi cael trafodaethau gyda HVE a gwasanaethau. Dywedodd ein bod wedi gwneud llawer ac yn gwneud llawer â'r mater yma. Mae yna lawer o straeon cadarnhaol yn barod ac yn hapus i'w rhannu gyda'r grŵp mewn cyfarfod/adroddiad ysgrifenedig yn y dyfodol. Canolbwyntio ar bethau allweddol – prynu'n lleol, lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi, ceginau modern a lleihau gwastraff ac ati. Mae yna gontract newydd gyda Harlech Foods – newyddion da ac elfen cysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol o ran allyriadau'r gadwyn gyflenwi a phrynu'n lleol. Serch hynny, mae yna gapasiti cyfyngedig i ganolbwyntio ar hyn. Fe fydd yn rhywbeth i'w ddatblygu yn ystod haf 2021 gobeithio. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd da â'r mater yma fel awdurdod. Fe awgrymwyd mynd gerbron y pwyllgor craffu a chodi'r agenda plastig/ysgolion ym mis Medi nesaf.

# Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **GT –** Fel Cadeirydd y Gweithgor, i awgrymu wrth Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu am y cyfle i gael adroddiad ysgrifenedig gan wasanaeth Arlwyo Ysgolion i fynd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Medi/Hydref 2021 ynglŷn â chynnydd a wnaed o ran carbon isel a lleihau ar ddefnydd plastig untro.

Cam gweithredu ffyrdd newydd o weithio

Dywedodd AS y bu'n rhaid i ni newid y ffordd rydym ni'n gweithio oherwydd Covid. Cafodd holiadur staff ei ddosbarthu i weld sut roeddynt yn dymuno gweithio yn y dyfodol. Cafwyd cyfradd ymateb da iawn (50%) gyda chasgliadau pendant. Roedd y mwyafrif eisiau parhau i weithio o adref i ryw raddau, gyda'r offer cywir, ond roeddynt eisiau gallu cyfarfod eu cydweithwyr. Ar gyfartaledd, roedd pobl eisiau 3 diwrnod adref a 2 ddiwrnod yn y swyddfa. Yn amlwg mae'n rhaid bod yn hyblyg gan fod hyn yn amrywio yn seiliedig ar ofynion y tîm. Bydd cynnig yn cael ei ddosbarthu yn fuan yn y flwyddyn newydd. Fe nodwyd pedwar ffrwd gwaith: –

- sut y gellir cefnogi staff i weithio o adref
- sut y gallwn ni ddefnyddio ein swyddfeydd yn y dyfodol
- arweinyddiaeth a hyfforddiant (dod i'r arfer â'r ffordd wahanol o weithio)
- strategaeth a chost eiddo yn yr hir dymor

Cafwyd llawer o gyfraniadau hyd yn hyn, a gobeithio y gellir anfon cynigion manwl tua mis Ebrill. Mae aelodau wedi gallu cyfrannu hefyd, a bydd y Cynghorydd Richard Mainon yn edrych ar y cyfraniadau hynny ym mis Ionawr. Mae angen meddwl mwy am y cynnydd mewn allyriadau carbon adref yn erbyn y gostyngiad mewn manteision teithio. Mae'n debygol iawn bod gweithio o adref yn cael dylanwad cadarnhaol ar leihau carbon wrth i staff gymudo o ardal eang o ogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

HVE – gofynnwyd sut y byddai'r gweithgor yn cael effaith ar yr adborth. Fe awgrymodd AS i gyfleu hyn drwyddo ef neu Richard Mainon. Efallai y bydd aelodau o Lywodraeth Cymru

eisiau cyfrannu at y manylion allai ddod yn sgil yr effaith ar garbon. Fe ellir edrych ar hyn yn ffurfiol neu enwebu aelodau i'w ddadansoddi. Fe awgrymodd HVE ein bod yn cymryd ein adborth o gyfarfodydd blaenorol a'u hanfon at AS i ddechrau.

Fe dynnodd BF sylw at elfennau cadarnhaol gweithio o adref gan fod gennym lai o draffig ac ati. Fe soniodd hefyd am y cynnydd mewn amser yn y gwaith gyda rhagor o gyfarfodydd dros y we, galwadau ffôn ac e-byst.

BF – fe soniodd am gynnydd mewn traffig yng nghefn gwlad wrth i bobl geisio mynd i ganol natur a bod yn yr awyr agored ar gyfer eu lles, ac roedd hi'n teimlo bod angen ystyried hyn. Cadarnhaodd HS bod rhagor o ddefnydd ar ardaloedd cefn gwlad. Roedd meysydd parcio, gwasanaethau ac ati o dan straen.

Dywedodd AR fod tîm Liz Grieve wedi mynd i weithio yn Rhuddlan a chafodd hyn ei groesawu. A fyddai AS yn ystyried cyfarfodydd/staff yn gweithio mewn ardaloedd eraill ar draws y sir, ac nid yn Rhuthun yn unig? Dywedodd AS y dylid annog hyn, a staff i weithio mewn ardaloedd lleol cymaint â phosibl er mwyn lleihau teithio. Roedd yna deimlad gallai hyn fod yn hwb mawr i bob rhan o'n sir.

Gofynnodd GK pryd yr anfonwyd yr e-bost i Gynghorwyr am ffyrdd newydd o weithio.

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **HVE –** anfon yr wybodaeth a gasglwyd o gyfarfod y gweithgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd at AS.

## 3. Drafft ar ôl ymgynghori o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Fe arweiniodd HVE y grŵp trwy'r papur briffio a gofyn am adborth am y newidiadau a awgrymwyd i'r strategaeth yn dilyn adborth y cyhoedd.

Roedd 18 newid wedi'u hawgrymu yn Atodiad C, a chytunodd y gweithgor ar bob un ohonynt.

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

Cytunodd y gweithgor ar yr argymhelliad i oedi cymeradwyo y Cabinet a'r Cyngor tan ddydd Gwener.

Sylwadau cyffredinol

GT – roedd yn falch â'r adborth a gafwyd ac yn teimlo bod y niferoedd a ymatebodd yn dda. Fe soniodd am yr ymateb isel gan ysgolion, er roedd yn deall ei bod hi'n gyfnod prysur iddynt, ac fe hoffai barhau i'w cynnwys. Dywedodd ei bod hi'n bwysig nodi nad ffurfioldeb syml yn unig oedd yr ymgynghoriad, roedd yn ymgais i gynnwys pobl ac mae'r newidiadau sydd wedi'u rhestru yn dangos bod ymgynghori wrth ei wneud o ystyried y camau gweithredu sydd wedi'u hawgrymu. Mae'n hanfodol cynnal perthynas gadarnhaol gyda grwpiau amgylcheddol ar draws y Sir a chyfleu'r neges i'r cyhoedd yn llwyddiannus.

Gofynnodd GK pa mor agos ydym ni'n gweithio gydag awdurdodau eraill ac ydym ni'n dilyn cynllun tebyg? Gan ymateb, dywedodd HVE ein bod yn un o'r Awdurdodau Lleol cyntaf i gynhyrchu ein cynlluniau di-garbon net. Rydym wedi bod yn rhannu ein taith a'n dull gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus – maent wedi cael croeso gan Sir y Fflint, Conwy, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin ac ati. Mae HVE yn awyddus i ddysgu mwy gan Gwent - Gwent sy'n Barod ar gyfer yr Hinsawdd - menter Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn chwilio am ragor o gydweithio wrth symud ymlaen.

Trafododd BJ ei ddull o gydweithio a chyfleu ein sefyllfa ni gydag awdurdodau ar draws rhanbarth Gogledd Cymru ac mae'n gobeithio dod ynghyd yn y dyfodol agos i godi proffil yr agenda yma a pharhau i helpu i ffurfio mentrau cydweithio.

Dywedodd TT bod Sir Ddinbych yn gwneud yn dda iawn gyda llawer o waith cadarnhaol.

Gofynnodd GK am ragor o wybodaeth ynglŷn â sefydliad Trefnu Cymunedol Cymru/Together Creating Communites (TCC). Dywedodd HVE mai grŵp gweithredu yn y gymuned ydyw sydd wedi'i leoli yn Wrecsam ond mae'n gweithio ar draws Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam. Maent yn canolbwyntio ar Newid Hinsawdd, Lloches a Thai. Fe wnaethant lwyddo i gael swyddogion trwy gyllid y loteri sydd wedi rhoi capasiti iddynt i arwain at newid. Yr hyn mae TCC yn ei ofyn i Gyngor Sir Ddinbych o ran Newid Hinsawdd ydi:

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

- I gael tudalennau gwe penodol ar yr agenda ac ymddangos ar y dudalen flaen
- I fuddsoddi mewn hyfforddiant llythrennedd carbon ar gyfer staff a chynghorwyr
- I godi'r mater o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ym Mwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

Dywedodd CJW ei fod yn falch bod HVE wedi mynd drwy'r holl sylwadau ac awgrymodd newidiadau i'r strategaeth yn unol â hynny. Cafwyd sylw cyffredinol er mwyn sicrhau bod ymwrthod tanwyddau ffosil yn ddiffuant ac yn cael ei gynnal dros y tymor hir. O dan Cronfa Bensiynau Clwyd, fe awgrymodd GK y gallai'r Cynghorydd Julian Thompson-Hill roi sylw am hynny.

JW – fe ychwanegodd bod ein methodoleg a ddatblygwyd ar gyfer ein nod ecolegol positif yn gyntaf o'i fath ac mae awdurdodau lleol eraill yn cysylltu â ni i rannu hyn. Enghraifft arall o sut rydym ni'n arwain y ffordd fel awdurdod.

Mynegodd TB bryder mewn cysylltiad â newid 12 ynglŷn â gweithio gyda pherchnogion tir yn Sir Ddinbych i'w hannog i ddal a storio carbon a gwella bioamrywiaeth ynglŷn â chapasiti staff er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Dywedodd HVE bod hyn yn bryder dilys a byddant yn mynd i'r afael ag o trwy'r broses Cynllunio Gwasanaeth.

Gofynnodd GT am y dull o ddiweddaru'r strategaeth yn y dyfodol yn dilyn cyflawniadau a wneir neu newidiadau technolegol. Fe awgrymodd HVE bapur adolygu blynyddol i'r Cyngor Llawn yn adrodd ar gynnydd sy'n cael ei wneud, a gwneud unrhyw ddiweddariad i ddogfen y strategaeth ar yr un pryd.

Gofynnodd GK ydym ni'n ymgysylltu â ffermwyr ifanc ac undebau'r ffermwyr? Dywedodd HS ei fod yn ymwybodol fod yna Ymgynghorydd Ffermydd ar gyfer Sir y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych. Beth allem ni ei wneud trwy ymgysylltu â thenantiaid?

Dywedodd GK bod llygredd aer yn y newyddion yn ddiweddar gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr agenda yma, a'r angen i gynnwys trafodaethau sy'n ymwneud â'r mater yma yn y dyfodol.

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

### 4. Rhaglen gwaith i'r dyfodol a chyfarfodydd nesaf

Fe arweiniodd HVE y grŵp trwy’r rhaglen gwaith i’r dyfodol.

Argymhelliad i symud Newid Ymddygiad i fis Ionawr a Defnydd Tir i fis Chwefror er mwyn hwyluso presenoldeb/cyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru. Cytunwyd ar yr argymhelliad.

**CAMAU GWEITHREDU:**

- **HVE –** symud agendâu mis Ionawr a Chwefror a sicrhau bod cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymuno.

| Mis | Eitemau arfaethedig gyfer eu trafod |
|---|---|
| 14 Ionawr | Thema: Newid Ymddygiad<br>• Newid mewn cyfathrebu ac ymddygiad ymysg staff a chynghorwyr |
| 9 Chwefror | Thema: Defnydd Tir<br>• Defnydd Tir er budd dal carbon a gwelliant ecolegol<br>• Dysgu gan Gyfoeth Naturiol Cymru |
| 9 Mawrth | Thema: Cau’r grŵp a dathlu llwyddiant<br>• Myfyrio ynghylch ystyriaethau’r Cyngor o’r Strategaeth a’r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.<br>• Edrych yn ôl ar siwrnai’r grŵp ers datgan yr argyfwng<br>• Cynlluniau ar gyfer llywodraethau a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen<br>• Gwersi a ddysgwyd a’r camau nesaf i’r Cyngor. |

### 5. Unrhyw Fater Arall

Roedd HS yn teimlo bod yna ofyniad i reoli rhostiroedd ein hucheldir mewn modd a fyddai’n sicrhau ei fod yn dal carbon y gorau y gall.

## Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol; 10.11.20

Ar ffurf e-bost roedd TB yn ystyried pa “gonsesiynau” y gallem eu rhoi ar waith ar gyfer cerbydau sydd â phlatiau rhifau gwyrdd - <https://www.bbc.co.uk/newsround/55229009>. Fe allem edrych ar hyn o safbwynt cymudo staff a safbwynt preswylydd/busnes - parcio am ddim, blaenoriaeth parcio, lwfans milltiredd ac ati. Er na fyddai’r mesurau’n cael effaith enfawr ar ostwng carbon, yn symbolaidd fe allai wneud gwahaniaeth mawr - dangos ein hymrwymiad i’r agenda.  Yn yr un modd â’r strategaeth, os weithredwn ni’n gynnar ar hyn fe fyddai’n dangos ein bod yn arweinwyr yn y maes yma ac yn gwella enw da’r Cyngor.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag